**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd yn y Rhithiol ddydd Llun, 8 Mawrth 2021**

**Presennol**: Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, A M Jones (Cadeirydd), Dylan Rees (Is-Gadeirydd), Alun Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts a Bryan Owen

**Aelodau Portffolio:** Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol), Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Pobl Ifanc , Llyfrgelloedd a Diwylliant) Alun Mummery (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau) R G Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor), Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid).

**Wrth law:** Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, Pennaeth Gwasanaethau Tai, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio ac Economaidd), Pennaeth Proffesiwn (AD) a Rheolwr Trawsnewid, Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM), Prif Swyddog Prisio (TDE), Prif Swyddog Datblygu (THJ), Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Pwyllgor (ATH**)**

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Richard Owain Jones, Mr Keith Roberts, Mr Dyfed Wyn Jones (Aelodau Cyfetholedig)

**Hefyd yn bresennol**: Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

(1:00 p.m. i 3:10 p.m.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 1 **Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| | Gan gyfeirio at eitem 4 ar y rhaglen, dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts ei bod wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwr ar Bartneriaeth Llangefni, y fenter gymdeithasol a fu'n gyfrifol am reoli a rhedeg cwrs Golff Llangefni am gyfnod. Eglurodd fod y Bartneriaeth wedi bod yn ymwneud â'r cwrs golff cyn iddi fod yn gyfarwyddwr. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 2 **Adroddiad Cynnydd Gwelliannau Gwasanaethau Cymdeithasol** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd – <br><br>• Cadarnhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol |

| | |
|---|---|
| | a,<br><br>• Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod cynnydd a chyflymder y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Chwarter 3 2020/21**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r diweddariadau a ddarparwyd gan Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac argymell y mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.<br><br>GWEITHRED YCHWANEGOL A GYNIGIWYD:<br><br>Y Gwasanaeth Tai i ddarparu data ar reoli digartrefedd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cwrs Colff Llangefni**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid gohirio gwerthu tir cwrs Golff Llangefni fel y gellir ystyried opsiynau ar gyfer cynnwys y cyfan o'r tir, neu ran ohono, o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd pan adolygir y Cynllun, ac yn y cyfamser fod yr eiddo Ffridd yn cael ei farchnata i'w werthu ar y farchnad agored ac ailfuddsoddi'r arian a geir o'i werthu yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Rhaglen Waith**<br>Adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd –<br><br>• Cytuno ar fersiwn gyfredol y flaenraglen waith ar gyfer 2020/21.<br>• Nodi'r cynnydd hyd yma wrth weithredu'r flaenraglen waith. |